

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol y Cyngor 10<sup>fed</sup> Mai 2021 am 7.30yh trwy zoom**

### **Presennol**

Cyng. Lloyd Jenkins (*Cadeirydd*)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Peter Williams

Y Cyng. Clive Davies (*aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

Cyng. Lyn Jones

Mrs Delyth Phillips (*clerc*)

Cyng. Eurig Lloyd (*Is-gadeirydd*)

Cyng. Des Davies

Cyng. Auriol Williams

Cyng. Melanie Davies

Cyng. Dilwyn Jenkins

### **1. Croeso'r Cadeirydd:**

Croesawodd y cadeirydd, y Cyng. Lloyd Jenkins, bawb i'r cyfarfod blynyddol trwy Zoom.

### **2. Penodi Cadeirydd am y flwyddyn 2021-22**

Cynigiwyd gan y Cyng. Melanie Davies fod y Cyng. Lloyd Jenkins yn cael ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021-22; eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams. Diolchodd Y Cyng. Lloyd Jenkins am y cefnogaeth oedd wedi derbyn yn ystod y 6 mis diwethaf.

### **3. Llofnodi datganiad derbyn swydd, ac ymrwymo i'r Côd Ymddygiad gan y Cadeirydd newydd.**

Gwahoddwyd y Cadeirydd, y Cyng. Lloyd Jenkins, i ddarllen ac arwyddo'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" a'i hymrwymiad i barchu'r côd ymddygiad.

### **4. Penodi Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2021-22**

Cynigiwyd gan y Cyng. Melanie Davies fod y Cyng. Eurig Lloyd yn cael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021-22; eiliwyd gan y Cyng. Des Davies.

### **5. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Matthew Morgan.

### **6. Datgan buddiannau personol:** Dim

### **7. Cytuno Lwfans i'r Cadeirydd am y flwyddyn 2021-22**

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins fod y swm o £500 y flwyddyn i'w dalu mewn dau randaliad fel y llynnedd.

### **8. Penodiadau Allanol am 2021-22:**

a) Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley:

Y Cyngorwyr Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Peter Williams, Des Davies a Lloyd Jenkins

b) Cynrychiolwyr Pwyllgor Lles Penyparc:

Y Cyngorwyr Des Davies, Llinos Price

c) Cynrychiolydd Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig:

Y Cadeirydd.

d) Cynrychiolydd Sianel Glir Afon Teifi Cyf.:

Y Cyng. Dilwyn Jenkins.

e) Llywodraethwr Ysgol Gymunedol Penyparc:

Y Cyng. Eurig Lloyd

f) Cyfreithwyr:

George, Davies & Evans

g) Archwilydd Craffu'r Cyfrifon:

Cyng. Matthew Morgan

h) Archwilydd Mewnol y Cyfrifon:

Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd ar y penodiadau allanol

### **9. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol:**

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams fod cofnodion mis Ebrill yn gywir.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Materion yn codi.

- (a) **Arwyddion Baw cŵn** – Ma nhw wedi cael euroi i fyny gan John Morris ond mae dal broblem. Ar hyn o bryd nad yw'r dispensers am y bagiau ar gael, cynigwyd gan Y Cyng. Clive Davies cysylltu gyda Cyngor Ceredigion i cael arwyddion/lluniau weladwy i rhoi ar y ffyrdd – mae hyn yn boblogaidd gan cymunedau eraill. Cytunwyd i cael rhai i'w rhoi yn manau ble mae pobl yn cerdded y cŵn.
- (b) **Diffibriliwr Mwnt** – Pob dim wedi sortio. Diffibriliwr wedi archebu, a mae Gary o Lewlec wedi cytuno iw osod.
- (c) **Golygfan Gwbert** – mae'r gwaith wedi cael i cwblhau gan TTS ac ma'r golygfan tipyn yn well. Cynigwyd danfon llythyr o ddiolch i Mr Rob Cutter am y gwaith da. I ni ddal heb cael ymateb wrth Cyngor Ceredigion yng nghlŷn a pwy sydd a gofal am y golygfan.
- (d) **Seddau ger y Cliff** – Y clerc wedi edrych mewn iddynt – maent heb cael i trwshio ers sawl blwyddyn. Y Clerc i ofyn i Mr John Morris iw trwshio. Hefyd mae yna llwybr dal ar gau wrth waelod Gwesty'r cliff – y clerc i ddanfon llythyr i Mr Wells Jones yn holi a oes rheswm am hyn cyn cysylltu a Cyngor Ceredigion.
- (e) **Cyfarfod Catrin Newbold** – Y clerc yn cael traferth i cael unrhyw ymateb yng nghlŷn a'r cyfarfod. Gofynwyd i y Cyng. Clive Davies i holi am ymateb. Codwyd pryderon bod yna plot adeiladu ar werth yn y pentref am £60K sydd ar gofynion S106 afforddiadwy arno. A odi pobl ifanc yr ardal yn merdu afforddio £60K am plot? Mae yn hanfodol bod yna cyfarfod yn yr wythnosau nesaf.
- (f) **Sensors update** – mae y Cyng Peter Williams wedi bod yn brysur yn edrych ar y sensors yma i nifer o lleoliadau. Angen trwshio iet i cae chware Y Ferwig, y clerc i ofyn i Mr John Morris i edrych arno.

## 11. Ceisiadau am gymorth ariannol.

I'w penderfynu ym misoedd Ebrill a Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996. Tenavous Cancer Care

## 12. Cynllunio

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>

## 13. Materion Ariannol

### Biliau i'w talu.

Cyflog y Clerc (Ebrill 2021)	101915	£385.97
Costiau'r Clerc (Ebrill 2021)	101916	£185.41
Cyngor Sir Ceredigion – rhent maes parcio Gwbert	101917	£5.00
Dŵr Cymru	101918	£53.05

Cynigiwyd gan y Cyng. Melanie Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Balans yn y Banc:-**

**Cyfri arbedion- £2890.58**

**Cyfri cymuned - £8916.34**

**Derbyniadau:** Traean o braesept 2021-22 - £8070.00 (30/4/21)

Llog ir cyfri arbedion 0.02c

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Gohebiaeth:

79	Cyngor Sir Ceredigion	Gwybodaeth am Praesept 2021-22 £24,210	Nodwyd
80	Gofal mewn Galar	Cydnabyddiaeth am y rhodd a dderbyniwyd.	Nodwyd
81	Cyngor Sir Ceredigion	Taliad cyntaf or Praesept - £8070.00	Nodwyd
82	Tenovus Cancer Care	Cais am rhodd ariannol	I'w trafod yn Mis Hydref
83	Cyfrifiad 2021	Gwybodaeth am llwyddiant y cyfrifiad.	Nodwyd
84	ROSPA	Gwybodaeth arsylwi cyfarpar chwarae yn Penparc a Ferwig	Y clerwr i'w bwcio ar gyfer Penparc a Ferwig.
85	Cor Gobaith	Gwybodaeth am Sul y Cofio a'r Pabi Gwyn	Nodwyd

## 15. Materion Eraill:

- Casglu Sbwriel yn ardal y Mwnt** – Codwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod trigolion Mwnt yn gorfod cario i sbwriel lan i top y ffyrdd ger Blaenwaun. Angen y Cyng. Clive Davies i holi pam nad yw'r lori ddim yn mynd lawr i Mwnt pan mae o yn galw yn tai sydd ar ffyrdd preifat yn y Gwbert? Mae yna hefyd man casglu sbwriel gyferbyn a ben hewl Crugmor sydd yn achosi tipyn o anibendod ac yn edrych yn fler.
- Pwyllgor cylch meithrin Penparc** – Mae'r pwyllgor angen cadeirydd newydd – fel arfer mae angen cadeirydd tu allan i'r Cylch a ddim plant ac ati yn yr ysgol. A oes diddordeb gyda rhywun? Plis cysylltwch ar cylch.
- Grŵp whatsapp** – Gofynnodd y clerwr a fyddau diddordeb gan yr aelodau i cael grŵp ar whatsapp ar gyfer negeuon cloi ac ati. Cytunwyd fydd hyn yn ddefnyddiol.

## 16. Dogfennau'r Cyngor:

Asesiad Risg ar y Cyfrifon.  
Cynllun yr Iaith Gymraeg  
Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol  
'Standing Orders' y Cyngor

Copi ar gael gan y Clerwr.  
Copi ar gael gan y Clerwr.  
Copi ar gael gan y Clerwr.  
Copi ar gael gan y Clerwr

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price fod yr uchod yn gywir

## 17. Adroddiad y Cyngorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- LDP** – yn ail agor am y 30 mlynedd nesa.
- Casglu sbwriel** – Llechryd wedi bod yn brysur yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref, a mae CFFI Penparc a y Cyng Clive Davies yn mynd i gasglu dydd Sul 16 Mai 2021 yn Penparc. Mae yna croeso i unrhywun i ymuno.
- AGM Cyngor Sir** – Bydd y Cyng Clive Davies yn sefyll lawr fel cadeirydd Trwyddedau o ddydd Gwener 14/5/21
- Gwelliannau ir ffyrdd yn Gwbert** – Bydd yr ffyrdd ar gau am rhyw 9 diwrnod diwedd y Mis i wneud gwaith anghenrheidiol – angen holi beth sydd yn digwydd ir bws ysgol yn ystod y cyfnod yma? Y cyng Clive Davies yn mynd i holi.
- Cynllunio** - Bolafron yn mynd yn i flaen, mae yna bach o broblem wrth bwlch ger roundabout yn Tremain – angen llydanu y bwlch
- Llwybr cyhoeddus** - Braf gweld y llwybr wedi cael i wella ir Gwesty Cliff. Ac hefyd fydd y darn o 'Swallow boats' i'r dre yn cael i wella o Mis Gorffennaf ac mae yna dal obeithion fydd gwelliannau ir parcio lawr yn Patch yn mynd yn i flaen. Codwyd y cwestiwn – pwy sydd a'r cyfrifoldeb am y slipway rhwng y Clwb Hwyllo a'r maes carafannau? – Y Cyngor Sir. Hefyd, a odi'r llwybr o Penparc i'r Dref yn mynd yn i flaen eleni? Ydy, mae o fod gan bod yna siarad gyda perchennog y tir ac ati.
- Cyfarfodydd yn y dyfodol.** – ar ôl trafodaeth cytunwyd bod y cyfarfod nesa trwy zoom gangobeithio fydd yr un yn Mis Gorffennaf nol yn un or safleoedd.

## 18. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 14 Mehefin am 7.30 yh trwy Zoom

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Annual General Meeting held on 10<sup>th</sup> May 2021 at 7.30pm through Zoom.

### Present:

Cllr Lloyd Jenkins (*Chairman*)

Cllr Llinos Price

Cllr Peter Williams

Cllr Clive Davies (*Local Member of the County Council*)

Cllr Auriol Williams

Mrs Delyth Phillips (*Clerk*)

Cllr Eurig Lloyd

Cllr Melanie Davies

Cllr Des Davies

Cllr Dilwyn Jenkins

Cllr Lyn Jones

### 1. Chairman's welcome.

The Chairperson, Cllr Lloyd Jenkins welcomed all to the annual meeting through Zoom

### 2. Appointment of a Chairperson for the year 2021-22

It was proposed by Cllr Melanie Davies that Cllr Lloyd Jenkins be elected as Chairperson of the Council for the year 2021-22; this was seconded by Cllr Peter Williams. Cllr Lloyd Jenkins thanked everyone for their support during the last 6 months.

### 3. Signing the document "Declaration of Acceptance of Office" and undertaking to observe the current Code of Conduct.

The Chairperson, Cllr Lloyd Jenkins, was invited to read and sign the "Declaration of Acceptance of Office" document.

### 4. Appointment of a Vice-Chairperson for the year 2021-22

It was proposed by Cllr Melanie Davies that Cllr Eurig Lloyd be appointed Vice-Chairperson for the year 2021-22. This was seconded by Cllr Des Davies.

### 5. Apologies for absence: Cllr Matthew Morgan

### 6. Personal and Prejudicial Interest: NONE

### 7. Chairman's Allowance for the year 2021-22:

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the sum of £500 per annum be agreed; this sum to be paid in two equal instalments.

### 8. External Appointments for 2021-22:

a) Ystafell Berkley Management Committee

Cllrs Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Peter Williams, Des Davies and Lloyd Jenkins

b) Pwyllgor Lles Penparc Representatives

Cllrs Des Davies, Llinos Price

c) Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig Representative

Chairperson

d) Afon Teifi Fairways Committee Ltd.

Cllr Dilwyn Jenkins

e) Governing Board Ysgol Gymunedol Penparc

Cllr Eurig Lloyd

f) Solicitors

George, Davies & Evans, Cardigan

g) Council's Accounts' Scrutineer

Cllr Matthew Morgan

h) Accounts Internal Auditor

Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

### 9. Minutes of previous monthly meeting:

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the April minutes are correct.

### 1. Matters arising:

- a. **Dog mess signage in Penparc** – New signage has been put up by Mr John Morris, but there is still a problem in the village. Poo bag dispensers are currently out of stock, clerk to order when back in stock.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cllr. Clive Davies to contact CCC to enquire regarding road signs on the tarmac to remind people of the need to dispense of dog mess accordingly. It was agreed that these could be placed in problem areas around the village.

- b. **Mwnt Defibrillator** – Has been ordered, and Gary Lewis from Lewlec has agreed to install the defibrillator in Mwnt.
- c. **Gwbert viewpoint** – the work has been completed and everyone agreed the viewpoint was much improved. It was proposed to send a letter to Mr Rob Cutter of TTS to thank the company for the work carried out.
- d. **Chairs on the footpath near to the Cliff** – The clerk has looked at previous invoices and these chairs have not been repaired for several years. The clerk to ask Mr John Morris to repair and repaint etc. Also, concern was expressed that one of the footpaths/public rights of way at the Cliff hotel was still currently closed. The clerk to write a letter to Mr Wells Jones enquiring if there was a reason for this before contacting CCC.
- e. **Meeting with Catrin Newbold** – Unfortunately it has proved difficult to contact Ms Newbold and as yet a meeting has not gone ahead. It was asked if Cllr. Clive Davies would enquire what the delay was. Concern was also expressed that a building plot in Ferwig was on the market for £60K with a S106 affordability dwelling on it. Would young people be able to afford a plot of this value? A meeting with Ms Newbold was needed in the next few weeks.
- f. **Sensors update** – Cllr Peter Williams has been busy looking at sensors and different locations. The gate at Ferwig Play area needs to be repaired and then a sensor can be placed on it to record how much use it has. Clerk to ask Mr John Morris to look at the spring.

## 10. Requests for financial support:

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996. Tenavour Cancer Care

## 11. Planning:

<i>Application Ref:</i>	<i>Address and Proposal</i>	<i>Comments</i>

## 13. Financial Matters.

### Bills to be paid

Clerk's Salary (April 2021)	101915	£385.97
Clerks costs (April 2021)	101916	£185.41
Cyngor Sir Ceredigion – rent for Gwbert Viewpoint	101917	£5.00
Dŵr Cymru Welsh water	101918	£53.05

Proposed by Cllr. Melanie Davies and seconded Cllr. Llinos Price that the above bills are paid.

**Bank balances:- Savings account - £2890.58**

**Community account - £8916.34**

**Receipts:** 1/3 of the precept 2021-22 - £8070.00 (30/4/21)

Interest on savings account - 0.02p

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Correspondence:

79	Ceredigion County Council	Information regarding Presept 2021-22 £24,210	Noted
80	Gofal mewn Galar	Acknowledgement of donation received	Noted
81	Ceredigion County council	First payment of Presept - £8070.00	Noted
82	Tenovus Cancer Care	Request for financial assistance	To be disucssed in October
83	Census 2021	Information regarding the success of the Census	Noted
84	ROSPA	Information regarding safety inspection required at Penparc a Ferwig playgrounds	The clerk to book these inspections.
85	Cor Gobaith	Information regarding the use of the White poppy on Remembrance Sunday	Noted

## 15. Other Matters.

- (a) **Rubbish collection at Mwnt** – The issues was raised by Cllr. Auriol Willimas that residents down in Mwnt, after the church, have to leave their rubbish at the top of the turning for Mwnt near Blaenwaun. Cllr Clive Davies to enquire why has this need arisen, considering that in some private estates in Gwbert the rubbish is collected automatically. There is also a collection point for rubbish at the entrance to Crugmor where some rubbish spills out onto the layby and road.
- (b) **Cylch Meithirn Penparc Commitee** – are currently looking for a chair person, they do not need to have children at the cylch, if anyone is interested or knows of someone who is interested please contact cylch.
- (c) **Whatsapp Group** – The clerk enquired if the councillors would be interested in forming a whatsapp group to relay questions and issues quickly. It was agreed that this would be useful.

## 16. Council Documents:

Risk Assessment	Copy available with the Clerk.
Welsh Language Scheme	Copy available with the Clerk.
Annual Investment Strategy	Copy available with the Clerk.
The Councils Standing Orders	Copy available with the Clerk

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Llinos Price that the above documents be approved.

## 18. Report by the County Councillor, Clive Davies

- (a) **LDP** – discussions on the LDP for the next 30 years are about to open.
- (b) **Litter picks** – Llechryd organised a successful litter pick, and this Sunday 16/5/21 Penparc YFC and Cllr Clive Davies are completing a litter pick of Penparc. Everyone and anyone are welcome to join.
- (c) **County Council AGM** – Cllr Clive Davies' term of office as chairman of the licencing committee comes to an end on Friday 14/5/21
- (d) **Gwbert road improvements** – the road from Gwbert to Ferwig will be closed for some 9 days as improvements are made to the road. Enquires regarding will the school bus be able to follow its usual route will be made by Cllr Clive Davies.
- (e) **Planning** – Planning at Bolafron is going ahead, and there are some issues with a gateway entrance in Tremain which may need to be widened.
- (f) **Public Footpath** – Its great to see the footpath in Gwbert towards the Cliff hotel has been improved and completed. Improvements will also take place in July to the footpath from Swallow Boats to town. It is hoped the improvement to the parking at Patch is still going ahead shortly. A question was raised to the ownership of the narrow road leading down to the slip way next to the boat yard – it is

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

owned by CCC. Hopefully, the last stretch of the footpath/cycle path from Penparc to Cardigan has been resolved with the landowner and this will take place soon.

- (g) **Future meetings** – a discussion was held, and it was decided that the next meeting in June be held through zoom, but the hope is that the July meeting will occur face to face as COVID restrictions are eased.

**19. Date of next Council Meeting:** 14 June 2021 at 7.30 pm through Zoom.